**Urdd Gobaith Cymru**

**Disgrifiad Swydd**

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Prentis Chwaraeon Cymunedol |
| **Yn atebol i:** | Swyddog Datblygu Chwaraeon |
| **Cyflog:** | Cyflog yn gyfartal â Chyfradd Prentis Cenedlaethol |
| **Hyd y cytundeb:** | Bydd y cyfnod hyfforddiant yn para cyfnod o flwyddyn. |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr yr wythnos - oherwydd natur y swydd mae'n ofynnol i'r Swyddog weithio oriau oddi allan i oriau safonol swyddfa. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn hyblyg yn y cyswllt hwn. |
| **Lleoliad:** | Swyddfa'r Urdd |
| **Gwyliau blynyddol:** | Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr Chwaraeon. Rhaid neilltuo tridiau i'r cyfnod rhwng Nadolig a'r flwyddyn newydd. |
| **Cyfnod prawf:** | Bydd cyfnod prawf o 3 mis. |
| **Teithio:** | Mae teithio yn rhan annatod o'r swydd, telir lwfans o 43 y filltir. |
| **Gwiriad CRB:** | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y system D.B.S. |
| **Archwiliad meddygol:** | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |

**Dyletswyddau**

1. Nod y swydd fydd cynorthwyo'r swyddogion chwaraeon i gynyddu cyfranogaeth plant a phobl ifanc mewn gweithgaredd chwaraeon cyson, drwy gyfrwng y Gymraeg.
2. Bydd angen i'r prentis ddatblygu sesiynau wythnosol a chlybiau y tu allan i oriau dysgu yn ardaloedd penodol.
3. Rheoli a threfnu gwirfoddolwyr sydd yn gweithio yng nghlybiau chwaraeon yr adran.
4. Mewn rhai ardaloedd bydd angen cydweithio â chlybiau lleol sydd eisoes yn bodoli er mwyn annog plant a phobl ifanc i fynychu sesiynau wythnosol.
5. Bydd angen hyfforddi gwirfoddolwyr i ymgymryd â sesiynau chwaraeon, gan gynnwys hyfforddwyr ac arweinwyr.
6. Bydd angen cydweithio â swyddogion chwaraeon yr Awdurdodau Unedol, a'r Cyrff Llywodraethol i sicrhau fod 'llwybr allan' i'r rheiny sy'n cymryd rhan.

**Gofynion**

1. Bydd angen meddu ar drwydded yrru a char er mwyn cyflawni'r swydd hon.
2. Bydd cymhwyster yn y maes chwaraeon a hamdden o fantais.
3. Byddai profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc o fantais.
4. Bydd profiad o hyfforddi o fantais.
5. Bydd hi'n angenrheidiol gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg er mwyn cyflawni'r swydd hon.
6. Bydd angen dilyn nifer o gyrsiau hyfforddiant perthnasol ar gyfer datblygu yn y swydd.

**Hyfforddiant**

Fel rhan o'r prentisiaeth, bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i'r ymgeisydd llwyddiannus. Disgwylir i'r ymgeiswyr llwyddiannus gymryd rhan yn yr holl hyfforddiant a gynigir.

Anelir at y cymwysterau cenedlaethol isod:

- Tystysgrif NVQ Lefel 2 mewn Arwain Gweithgareddau (QCF)
- Cwrs Arweinwyr Chwaraeon Lefel 2
- Cwrs Diogelwch Plant
- Cwrs Cymorth Cyntaf
- Cymwysterau Chwaraeon Penodol

Er mwyn cwblhau'r cymwysterau, disgwylir i'r ymgeiswyr ymarfer tu allan i oriau arferol y cynllun. Yn ogystal â'r hyfforddiant uchod, rhoddir hyfforddiant mewnol ar weithgareddau amrywiol yr adran gan gynnwys trefnu ac arwain gweithgareddau, cynlluniau gwyliau a chystadlaethau rhanbarthol a chenedlaethol.

Am ragor o wybodaeth, neu i wneud cais, e-bostiwch prentisiaeth@urdd.org neu ffoniwch ar 02922 405349.